**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH** |
| **SUBJECT:** | **PWYLLGOR GWAITH - DYDD LLUN, 26 GORFFENNAF 2021 DYDD LLUN, 26 GORFFENNAF 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |

| **ITEM** | **SUBJECT** | **ACTION** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Davies. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant a goddefebau. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>** | |
| **No. 4** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - ALL-DRO DARPARIAETHOL 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau..<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y cafodd yr adroddiadau eu hystyried yn y Cyd-bwyllgor Craffu a gofynnodd i'r Prif Swyddog Adnoddau roi diweddariad o drafodaethau o'r cyfarfod.<br><br>Amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n diweddaru'r Pwyllgor Gweithredol ar yr all-dro darpariaethol ar y gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 ar draws pob portffolio. Nododd y Prif Swyddog y tabl sy'n dangos fod yr all-dro darpariaethol yn is na'r gyllideb gan £2.639m ar draws pob gwasanaeth. Roedd hyn ar ôl cyfraniad net dechreuol i gronfeydd wrth gefn penodol o £8.5m. Wrth adolygu sefyllfa diwedd blwyddyn, ac i gefnogi cadernid ariannol y Cyngor, gwnaed trosglwyddiad pellach i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £1.2m gyda'r balans o £1.4m yn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Dywedodd y Prif Swyddog y dyrannwyd cronfeydd wrth gefn ychwanegol oherwydd yr ymateb parhaus a'r adferiad oherwydd y pandemig.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog am yr adroddiad yn rhoi manylion y cyllid caledi a gafodd yr Awdurdod gan Lywodraeth Cymru, taliadau cymorth Covid a wnaed i gynlluniau a weinyddwyd gan yr Adran ar ran Llywodraeth Cymru a rhoddodd grynodeb o'r amrywiadau ffafriol ac anffafriol ar draws pob portffolio.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog fod yr all-dro darpariaethol yn dangos i falansau ysgolion gynyddu i £3.7m gyda dim ond un ysgol mewn sefyllfa ddiffyg ar hyn o bryd a dywedodd fod ysgolion wedi gweld effaith debyg ar eu cyllideb gan fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol i'r Cyngor yn ystod y pandemig. Roedd y cyllid hwn wedi cefnogi ysgolion yn eu hymateb i Covid-19; fodd bynnag ychwanegodd y Prif Swyddog mai budd un flwyddyn yn unig oedd hyn ac nad oedd yn ateb y pwysau cost parhaus y | |

| | | |
|---|---|---|
| | byddai'r ysgolion a'r Cyngor yn eu hwynebu yn y dyfodol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o raglen Pontio'r Bwlch.<br><br>Nododd y Prif Swyddog Adnoddau y trafodaethau yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Craffu ar y Gyllideb a dywedodd fod Aelodau wedi gwneud cais am adroddiadau yn y dyfodol fel y gallant ddeall effaith y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyllidebau penodol. Dywedwyd fod yr wybodaeth ar hyn o bryd yn fanwl am y gwahanol bortffolios, felly gwneir y newid o hyn ymlaen. Ychwanegodd y Prif Swyddog fod y Pwyllgor wedi cytuno i argymell Opsiwn a ffafrir 1.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a'r ffigur all-dro ar gyfer y flwyddyn a fu'n heriol ar draws y sector cyhoeddus. Teimlai'r Arweinydd fod yr Awdurdod ac awdurdodau eraill wedi trin y sefyllfa'n dda iawn ac roedd yn falch iawn i adrodd y sefyllfa hon.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd y bu adeiladu ar gadernid ariannol yn allweddol i'r weinyddiaeth hon dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a theimlai fod yr adroddiad yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i ddelio gydag unrhyw risgiau a allai godi. Mae meysydd sydd angen edrych arnynt ac amrywiadau anffafriol i fynd i'r afael â nhw a dywedodd yr Arweinydd ei fod yn hapus i fynd â hyn ymlaen gyda'r deiliaid portffolio perthnasol a'r Prif Swyddog Adnoddau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw faes o gonsyrn sylweddol ac mae amgylchiadau lliniaru ar gyfer yr amrywiadau anffafriol nad oedd yn achos consyrn.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a' rhoi'r her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad (Opsiwn 1). | |
| **No. 5** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF, ALL-DRO DARPARIAETHOL AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/21 (FEL AR 31 MAWRTH 2021)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Rhoddodd y Prif Swyddog Adnoddau drosolwg i'r Pwyllgor Gweithredol o wariant cyfalaf all-dro darpariaethol pob portffolio yn erbyn cymeradwyaeth cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021. Dywedodd y Prif Swyddog fod y sefyllfa ariannol ddarpariaethol gyffredinol fel ar 31 Mawrth 2021 yn dangos tanwariant o £161k o | |

| | | |
|---|---|---|
| | gymharu â chyfanswm cyllideb gyfalaf yn y flwyddyn o £17.78m a rhoddodd fanylion effaith tymor byr a hirdymor ar y gyllideb fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad .<br><br>Yng nghyswllt trafodaethau'r Cyd-bwyllgor Craffu ar y Gyllideb, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y bu trafodaethau am y meysydd gorwariant a chadarnhaodd y cafodd pryderon eu trin.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a<br><br>a) rhoddwyd yr her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad, a<br>b) bod y gweithdrefnau rheoli ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor yn parhau i gael eu cefnogi, a<br>c) nodi'r gweithdrefnau rheoli'r gyllideb a monitro a weithredir o fewn y Tîm Cyfalaf i ddiogelu cyllid yr Awdurdod. | |
| **No. 6** | **<u>DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy'n rhoi manylion gwybodaeth yng nghyswllt y ddrafft sefyllfa all-dro cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2020/2021. Nodwyd fod lefel gyffredinol cronfeydd wrth gefn cyffredinol/cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn o £14.7m i £28.6m, cynnydd o £13.9m a nododd y Prif Swyddog y ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod sefyllfa cronfeydd wrth gefn yn rhoi clustog i ddelio gyda phroblemau annisgwyl yn y dyfodol. Roedd yr elfennau penodol o'r symiau a glustnodwyd yn ymwneud â chyllid grant a ddelir yng nghyswllt prosiectau neu wasanaethau penodol a ddefnyddid wrth gyflawno'r deilliannau gwasanaeth perthnasol. Rhagwelai'r Prif Swyddog ei bod yn debygol y byddai cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn y dyfodol er mwyn lliniaru'r lefelau eithriadol o fenthyca gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig wrth ddelio gyda Covid-19. Teimlai'r Prif Swyddog ei bod yn ddarbodus cadw'r lefelau briodol o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a chronfeydd wrth gefn cyffredinol i gynorthwyo gyda sefyllfa cyllid a fedrai fod yn debyg i'r hyn a gafwyd yn ystod y degawd diweddar yn ystod blynyddoedd o lymder ariannol. | |

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y Cyd-bwyllgor Craffu yn deall yr angen i fod yn ddarbodus yn y dyfodol yng nghyswllt cronfeydd wrth gefn i sicrhau cydnerthedd ariannol da y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd y caiff cronfeydd wrth gefn eu monitro'n gyson gan y deiliaid portffolio perthnasol ac ar y cyd gan y Pwyllgor Gweithredol. Cafodd monitro cronfeydd wrth gefn ei wella yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf sydd wedi cryfhau'r cydnerthedd ariannol y Cyngor. Ni fu lefel y cronfeydd wrth gefn unrhyw le'n agos i ble y dylai fod ac er fod y lefelau presennol yn fwy ffafriol, mae angen mwy o waith i sicrhau fod yr Awdurdod mewn sefyllfa well ar gyfer y dyfodol. Cytunodd yr Arweinydd y byddai angen ar ryw adeg i drafod y grantiau a ddosbarthwyd i Lywodraeth Cymru a llywodraethau eraill o Lywodraeth San Steffan, fodd bynnag gobeithiai'r Arweinydd na fyddai mor ddifrifol â'r blynyddoedd llymder ariannol a fod yn rhaid i wleidyddion cyfrifol wneud popeth a fedrant i sicrhau fod yr Awdurdod wedi paratoi i ddarparu ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac

a) y rhoddwyd ystyriaeth i ddefnydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn ystod 2020/2021;
b) nodi'r cynnydd sylweddol mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel canlyniad i'r amgylchiadau eithriadol ym mlwyddyn ariannol 2020/21;
c) nodi bod y ddrafft sefyllfa all-dro y cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £7.820m yn 5.7% o'r gwariant refeniw net, yn uwch na'r lefel targed o 4%;
d) yr angen am reolaeth ariannol ddarbodus o gofio'r potensial am gyfyngiadau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol fydd eu hangen i gyllido effaith Covid-19;
e) rhoi her barhaus i orwariant cyllideb a gweithredu Cynlluniau Gweithredu gwasanaeth priodol lle mae angen; a
f) bod cynnal cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio ar lefel ddigonol yn hanfodol i'r Cyngor fedru ateb ymrwymiadau'r dyfodol yn deillio o risgiau na wnaed darpariaeth benodol ar eu cyfer.

**No. 7** **<u>RHAGLEN PONTIO'R BWLCH 2021/2022</u>**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

| | | |
|---|---|---|
| | Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy’n rhoi diweddariad ar yr Adolygiadau Busnes Strategol, yn cynnwys yr all-dro darpariaethol ar gyfer 2020/201 a’r asesiad diweddaraf o’r cyflawniad ariannol ar gyfer 2021/22 ymlaen. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai’r Rhaglen yn parhau i gael ei hadolygu i ganfod unrhyw newidiadau yn y tybiaethau. Os oes angen newidiadau o’r fath, caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a byddent yn cael eu cyflwyno i Aelodau yn yr hydref.<br><br>Nododd y Prif Swyddog Adnoddau y cwestiynau a godwyd yn y Cydbwyllgor craffu ar y Gyllideb a gafodd eu trin.<br><br>Nododd yr Arweinydd yr adroddiad a dywedodd y byddai’r adroddiad nesaf a fyddai’n cael ei ystyried wrth ochr y Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn allweddol i raglen Pontio’r Bwlch. Roedd yr Arweinydd wedi gobeithio y byddai’r adroddiad yn rhoi dealltwriaeth lawn o effaith Covid-19 ar yr adolygiadau busnes strategol arfaethedig a chroesawai unrhyw ffrydiau newydd i gael eu hystyried.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac y darparwyd yr her briodol i raglen Pontio’r Bwlch (Opsiwn 1). | |